Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol
Blood Health National Oversight Group

At: Cadeiryddion Pwyllgor Trallwyso Ysbytai

*Cc: Cyfarwyddwyr Meddygol, Arweinwyr Ansawdd a Diogelwch, Rheolwyr Labordai Trallwyso, Ymarferwyr Trallwyso, Haematolegwyr Ymgynghorol, Tîm Iechyd Gwaed (BHT)*

PARTHED: Ymateb y sefydliad i argymhellion SHOT 2021 8fed

Ionawr 2023

Annwyl Gydweithwyr,

Rwy'n ysgrifennu ar ran gweithgor Peryglon Difrifol Trallwyso (SHOT) BHNOG, a sefydlwyd i adolygu a chefnogi gweithrediad argymhellion SHOT ar sail Cymru gyfan.

Pwrpas gweithgor SHOT BHNOG yw i wneud y canlynol:

1. Datblygu strategaeth genedlaethol i gefnogi gweithredu canllawiau SHOT a gymeradwyir gan y BHNOG
2. Gweithio gyda byrddau iechyd i Nodi bylchau o ran cydymffurfio ag argymhellion blynyddol SHOT a
3. lle bo angen, datblygu adnoddau i gefnogi gweithrediad
4. Adrodd yn chwarterol i BHNOG ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â SHOT, i gynnwys diweddariadau ar gynnydd gyda gweithredu canllawiau SHOT , ac uchafbwyntiau o gyfarfodydd SHOT cenedlaethol.
5. Cynyddu rhwystrau i weithredu argymhellion SHOT ar lefel leol a chenedlaethol i BHNOG

Er y gallai Timau Trallwyso Ysbytai (HTT) ddarparu gwybodaeth ar gyfer y dadansoddiadau o fylchau ar gyfer adroddiadau blaenorol, mae argymhellion 2021 yn gofyn am fath gwahanol o ddata, y tu allan i gylch gwaith y timau hynny, gan ofyn am ymateb gan reolwyr clinigol / uwch reolwyr. Mae'r argymhellion wedi'u pwysoli'n drwm tuag at y cyfrifoldeb sefydliadol cyffredinol am ddiogelwch a grymuso cleifion. Mae adroddiad Argymhellion SHOT (2021) ar gael yn

https://www.shotuk.org/shot-reports/report-summary-and-supplement-2021/
https://www.shotuk.org/wp-content/uploads/myimages/2021-SHOT-Gap-Analysis-Tool.xlsx.

Byddwch yn ymwybodol bod haemo-wyliadwriaeth drwy SHOT yn un o ofynion yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)[1] sy'n cael ei fonitro drwy Adroddiad Cydymffurfiaeth Rheoliadau Ansawdd Diogelwch Gwaed (BSQR) (2005) ar gyfer pob Bwrdd Iechyd. Mae gwella diogelwch cleifion trwy ymchwilio ac ymgysylltu â chleifion yn cyd-fynd ag egwyddorion Rheoli Gwaed Cleifion (PBM), sy'n rhan annatod o Gynllun Iechyd Gwaed 2021 a'r defnydd priodol o waed.

Gan gynrychioli eich Byrddau Iechyd, fel cadeiryddion HTC, rydym yn deall mai chi sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau bod ein cais am ddata yn cael ei sianelu i'r bobl fwyaf priodol yn eich sefydliad a bod modd llunio dadansoddiad bylchau cyn gynted â phosibl, fel rhan o adroddiad ar gyfer y BHNOG. Mae fersiwn symlach o'r dadansoddiad bylchau ynghlwm wrth y llythyr hwn ac mae angen ei ddychwelyd i dîm BHT wbs.bloodhealth@wales.nhs.uk erbyn 24/02/2023. Os oes unrhyw bryderon neu broblemau gyda chwblhau, cysylltwch â'ch HTT lleol am gymorth.

Mae'r gwaith hwn a'n llwyddiant yn dibynnu'n fawr ar eich cefnogaeth chi a'ch HTC. Fel Cadeirydd BHNOG hoffwn ddiolch i chi ar ran Gweithgor SHOT BHNOG am y gefnogaeth barhaus honno i haemo-wyliadwriaeth, a hyderaf y gallwch barhau â'r gefnogaeth honno ymhellach drwy gynorthwyo'r gwaith casglu data hwn erbyn y dyddiad cau

Yn gywir,



Dr Brian Tehan, Cadeirydd BHNOG

1. https://www.gov.uk/guidance/blood-authorisations-and-safety-reporting

Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol
Blood Health National Oversight Group

SHOT
Serious Hazards of Transfusion

Argymhellion Allweddol SHOT 2021

1. Y claf fel partneriaid diogelwch - Rhaid i staff sicrhau eu bod yn cynnwys cleifion, yn ymgysylltu ac yn gwrando arnynt fel 'partneriaid' yn eu gofal eu hunain, gan gynnwys cymorth trallwyso. Mae cynnwys cleifion, eu teuluoedd, a gofalwyr fel 'partneriaid diogelwch' yn helpu i gyd-greu systemau mwy diogel, nodi a chywiro digwyddiadau andwyol y gellir eu hatal. Mae'r cyfrifoldeb o ddarparu gofal diogel yn parhau yn nwylo'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac ni ddylai cleifion deimlo, os nad ydynt yn dymuno neu'n methu â chyfrannu at eu diogelwch eu hunain, y byddant, o ganlyniad, yn derbyn gofal is-safonol. Dylid annog cyfranogiad, ond ni ddylai cleifion deimlo dan bwysau i fod yn bartneriaid yn eu diogelwch eu hunain os nad ydynt yn gyfforddus neu'n gallu gwneud hynny. Mae'n bwysig nodi nad yw ac na ddylai cleifion sy'n cymryd perchnogaeth o'u gofal eu hunain leihau cyfrifoldeb gweithwyr iechyd proffesiynol.

2. Cynllunio'r gweithlu, staffio diogel a system gofal iechyd ag adnoddau da - Rhaid i arweinwyr gofal iechyd sicrhau bod systemau wedi'u cynllunio i gefnogi arferion trallwyso diogel a dyrannu adnoddau digonol mewn meysydd clinigol a labordy i gefnogi'r canlynol:
   - Lefelau staffio diogel
   - Hyfforddiant staff mewn sgiliau technegol ac annhechnegol
   - Offer priodol, gan gynnwys systemau TG

3. Diwylliant dysgu diogelwch cyfiawn ym mhob sefydliad - Rhaid i bob arweinydd gofal iechyd hyrwyddo diwylliant dysgu diogelwch cyfiawn gydag arweinyddiaeth gyfunol, gynhwysol a thosturiol. Rhaid i arweinwyr effeithiol sicrhau bod staff yn cael mynediad at hyfforddiant, mentoriaeth a chymorth digonol. Mae gan bob aelod o staff mewn meysydd clinigol a labordai gyfrifoldeb i godi llais rhag ofn y bydd unrhyw bryderon a helpu i ymgorffori'r diwylliant diogelwch mewn timau.

| Prif argymhelliad | Camau gweithredu i'w cymryd | Cydymffurfio YDY/NAC YDY | Os Nac ydy, camau gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth |
|---|---|---|---|
| Y claf fel partneriaid diogelwch | Sicrhau bod systemau a phrosesau sefydliadol wedi'u cynllunio iganolbwyntio ar y claf | | |
| | Datblygu/gweithredu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymgysylltu â chleifion, teuluoedd a gofalwyr yn eu gofal eu hunain yn ogystal â mentrau gwella ansawdd diogelwch cleifion a dylunio gofal iechyd | | |
| Cynllunio gweithlu, staffio diogel a system gofal iechyd ag adnoddau da | Lefelau staffio diogel mewn ardaloedd clinigol a labordai trallwyso. Yn ddelfrydol, dylai lefelau staffio gofynnol fod yn seiliedig ar y llwyth gwaith cyffredinol, aciwtedd a chymhlethdod y gwaith dan sylw, gan ystyried data'r 3 blynedd flaenorol, ar gyfer pob absenoldeb gan gynnwys salwch, hyfforddiant gorfodol, gwyliau blynyddol, ac absenoldeb mamolaeth. Dylai uwch arweinwyr sicrhau lefelau staffio digonol fel bod yr amser angenrheidiol ar gyfer hyfforddiant staff ac asesiadau cymhwysedd yn cael ei ddarparu | | |
| | Mae polisi uwchgyfeirio a lliniaru clir pan fo lefelau staffio'n disgyn islaw'r lefelau staffio gofynnol ar gyfer pob gweithiwr iechyd proffesiynol. Rhaid i staff allu uwchgyfeirio pryderon os oes angen | | |
| | Mae cyfran o'r gyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer hyfforddi staff sy'n ymwneud â thrallwyso. Rhaid i staff dderbyn hyfforddiant mewn sgiliau technegol ac annhechnegol gan gynnwys Maes Llafur Cenedlaethol Diogelwch Cleifion y GIG a rhaid i'r rhai sy'n ymwneud ag ymchwilio i ddigwyddiad dderbyn hyfforddiant priodol mewn sgil perthnasol. | | |
| | Mae adnoddau digonol ar gael i staff gyflawni trallwysiadau yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys gweithredu systemau TG trallwyso effeithiol a dibynadwy i leihau'r risg o gamgymeriadau ar bob cam yn y llwybr trallwyso, ar yr amod eu bod wedi'u ffurfweddu a'u defnyddio'n gywir. | | |
| | Mae polisïau, gweithdrefnau ac adnoddau gan gynnwys TG wedi'u sefydlu ar sail egwyddorion dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ac maent yn syml, yn hawdd eu dilyn. | | |

| Prif argymhelliad | Camau gweithredu i'w cymryd | Cydymffurfio YDY/NAC YDY | Os Nac ydy, camau gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth |
|---|---|---|---|
| Diwylliant dysgu diogelwch teg ym mhob sefydliad - | Sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn gallu siarad am eu pryderon ac adrodd pan aiff pethau o chwith | | |
| | Sicrhau bod polisïau'n nodi'r hyn y dylai staff ei wneud yn dilyn digwyddiad, sut y dylid ymchwilio iddo, a pha gymorth y dylid ei roi i gleifion, teuluoedd a staff. Dylent hyrwyddo diwylliant dysgu teg, sy'n delio â phobl mewn ffordd deg, dosturiol gydag ymagwedd gynhwysol, gan gydnabod trwy ddysgu i gefnogi'r newidiadau sydd eu hangen pan fo pobl yn gwneud gwallau | | |
| | Sicrhau bod gan bob aelod o staff fynediad i gwblhau rhaglen hyfforddi Maes Llafur Diogelwch Cleifion y GIG | | |
| | Sicrhau bod staff sy'n ymwneud ag ymchwiliadau i ddigwyddiadau yn cael hyfforddiant digonol ar ddefnyddio fframweithiau ymchwilio sy'n seiliedig ar egwyddorion ffactorau dynol a nodi camau cywiro ac atal effeithiol | | |
| | Sicrhau bod gan staff fynediad at raglen fentora dda | | |
| | Asesu diwylliant diogelwch eu sefydliad yn rheolaidd gan ddefnyddio arolwg asesu diogelwch a chymryd camau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a nodwyd | | |